YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd
Gloywi Cymraeg
"Meic"
Newyddion Da
Cyflwyno Cyfeillion
Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth
Priodas Adolygiadau
Marwgofion
Nodion yr Eglwysi



Cyf. xlix

Gorff., 1949

Rhif 7

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.; Parchn. S. E. Bowen; E. R. Dennis; D. Evans; E. G. Evans, B.A.; E. O. Jenkins; J. Islan Jones, M.A.; Simon Jones, B.A.; A. J. Martin, B.A.; J. Marles Thomas, M.A.; Lewis Williams; T. O. Williams, M.A.; a'r Dr. D. J. Davies, Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., a Mr. D. Jones.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by Mortimer Rowe, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By Sidney Spencer, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. Tarrant, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. Stephens Spinks, M.A., Ph.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol xlix. GORFFENNAF, 1949. Rhif 7.

Nodiadau'r Golygydd.

"Ple Mae'r Medelwyr?"

Dyma'r cwestiwn a ofynnwyd mor ardderchog gan y bachgen bach a adroddodd yr emyn yn y Gymanfa Ganu. Ar y ffordd yn ôl, gofynnais innau'r un cwestiwn wrth weld y newid a ddaeth dros gefn gwlad Sir Aberteifi mewn amser byr. Lle gwelid deugain o wragedd a dynion yn troi rhibyn o wair a'i ysgwyd, heddiw nid oedd ond dau ddyn a pheiriant. Lle'r oedd Bes a Charles yn chwysu'n galed gwnai'r tractor y gwaith yn ddiffwdan. Gofynnai'r hen drefn am gaethweision. Caethwas oedd y dyn du yn America, a chaethwas hefyd oedd y gweithiwr cyffredin yng Nghymru. A fedr y peiriannau amlochrog eu dawn ddwyn baich y caethwasanaeth oddi ar ysgwydd flinedig dyn a rhoddi iddo'r hamdden a'r cyfle a berthynai gynt i ŵr bonheddig yn unig. Y mae hynny yn dibynnu ar ddyn a'i weledigaeth. Newidiodd ei amgylchfyd, ond ychydig a fu'r newid ynddo ef ei hun. Yr un yw ef yn ei hiraeth a'i ofid, ie, ac yn ei gasineb a'i gulni. Daeth y ceffyl yn ŵr bonheddig dros y nos, megis, eithr rhaid i grefydd a phob dylanwad da ddal ati'n hir ac amyneddgar cyn gweld pob dyn yn ŵr bonheddig. Newidiodd cynhaeaf Sir Aberteifi eithr ni newidiodd cynhaeaf crefydd ddim ; y dyn a'i gaib, y dyn a'i geffyl, y dyn a'i dractor eithr diddordeb mawr ein crefydd yw *dyn a'i gymydog.* Mae'r gwaith yn fawr, "Ple mae'r medelwyr" ?

Eisteddfod Gydwladol Llangollen.

Gwlad fach yw Cymru eithr gall gyfrannu pethau mawr i'r byd. Ei chyfraniad olaf a mwyaf pwysig efallai yw sefydlu'r Eisteddfod Gydwladol a dwyn y cenhedloedd at ei gilydd i ganu. Yr oedd Eisteddfod Fawreddog ym Mharis yr un pryd a'r pedwar côr mawr yn ymgecru a sôn am gael cam. Efallai y gall Cymru ddysgu iddynt sut i gydganu'n gytun.

Gloywi Cymraeg.

YR ORGRAFF, 2. YR ANADLIAD CALED (h).

Gan y Prifathro J. J. Evans, M.A., Tŷ Ddewi.

Tyfiant naturiol yw iaith—nid gwaith ymwybodol dyn, ond gwaith anymwybodol y natur ddynol ; ac y mae geiriau pob iaith yn newid eu ffurf o oes i oes yn ôl deddfau'r iaith, sydd ddeddfau fel deddfau natur. Felly, ond cael sain y gair fel y mae heddiw, gellir drwy wybod y deddfau hyn olrhain ei hanes fil o flynyddoedd yn ôl. Nid pentwr o lythrennau nac o sillafau yw gair, ond sain byw a thuedd wastad ynddo i newid wrth dreiglo o dafod i glust, ac o glust i dafod.

Cymerer un enghraifft o'r treiglo hwn : lle ceid *np* mewn gair, fil o flynyddoedd yn ôl, yn gyntaf fe ymdebygodd yr *n* i *p* drwy droi yn *m*, ac yna ceid *mp* ; yn ail fe ymdebygodd y *p* i'r *m* drwy golli'r ffrwydriad a glywir ynddo a throi yn *mh*, ac yna ceid *mmh*. Arhosodd y sain yn y fan hon, lle nad oedd acen o'i flaen—lle byddai acen o'i flaen, fe gollodd yr *h*. Dyna hanes y cytseiniaid mewn gair fel *amarch*, a dyma restr o'r gwahanol dreigladau :—
1 *anparch* ; 2 *amparch* ; 3 *ammharch* ; 4 ammarch (yr *h* yn colli *ar ôl yr acen*). Gan na ddyblir *m*, ysgrifennir y gair heddiw fel *amarch*, ond cedwir yr *h* o flaen yr acen yn—*amharchu*, *amharchus*.

Dyma'r rheol heddiw : lle bo *h* yn digwydd ynghanol gair, fe'i seinir yn glir *o flaen yr acen*. Fe ddigwydd hynny :—
(*a*) rhwng llafariaid, e.e. dihareb, cyhydedd, ehedeg, ehangder.
(*b*) ar ôl : m, n, ng, r, l, dd, f. Enghreifftiau :—
amheus, cymharu, tymhorau.
cynhesu, bonheddig, cynhyrchu, cenhinen, anhawsaf.
arhosodd, arhosfa, ymarhous.
cynghanedd, cyngherddau, anghyflawn.
amlhau, culhau.
boddhaus, pruddhau, cryfhau, etc.

Ond pan ddêl *h* ar ôl un o'r sisiadau (s, ff, th, ch), fe'i collir yn y sisiad, e.e. agosau, nesau, coffau. Erbyn hyn, gwell cadw *h* ar ôl *ll*, e.e. pellhau, gwellhau ; pellhaodd.

Ar ôl yr acen y mae'r anadliad caled, fel rheol, yn diflannu, e.e. brenin, ffynnon, cymar, cynnes, anodd, aros, angau.
Eithriadau i'r rheol.

(1) Cadwyd *h* yn y cyfuniadau a ganlyn :—nrh, nhr, nghr, nghl, lrh. Enghreifftiau :—
anrheg, anhrefn, cynrhon, ewinrhew, enghraifft, anghlod, cymhleth, olrhain, anrhaith, unrhyw, cynghrair, anghrist, etc.

(2) Cedwir *h* ar ôl an-negyddol, e.e. amhleidiol, amhriodol, amharodrwydd, angharedig, anghytun, annherfynol, etc.

Sylwer ar y rhain :—

angen, anghenus ; cyrraedd, cyrhaeddodd, cyraeddasant ; cynnal, cynhelir, cynhaliwyd ; brenin, brenhinoedd, brenhines, breninesau ; anodd, anhawster, anawsterau ; cenedl, cenhedloedd, cenedlaethau ; cynnyrch, cynhyrchu ; cyngor, cynghorau, cynghorion ; arholiad, arholiadau ; dihareb, diarhebion.

(3) Ni cheir *h* yn : angerddol, cynanu, cynefin, cyneddfau, cynigiaf, cynulliad, cynullodd, cynullydd, cynyddu, crynodeb.

Ond rhoddir *h* yn : cynhadledd, banhadlen, cyfanheddu, anheddau, danheddog.

Ar ddechrau gair ceir *h* ynghyswllt ag *m*, *n*, *ng*, e.e. fy *mh*en, fy *nh*elyn, fy *ngh*yfaill. Ond ni cheir *h* gydag *m* ar ôl y rhagenw blaen, benywaidd *ei* (her), e.e. ei mam, ei merch, ei maneg.

"Meic."

Stori yn nhafodiaith Aberdâr.

Gan David Lloyd, Cwmaman.

Oia, ôn i wedi dechra gweud i hanas a wrthot ti, ond own i, pan dorrast ti ar y nhraws i. Fel wetas i wrthot ti o'r blân, fe gymeriff dicyn o amsar i weud i hanas a i gyd, ond falla alla'i roi pip bach iti shwd un yw a.

Wyt ti'n gwpod ma coedwr ym Mhwll y Werfa odd nhad, a choedwr da odd a hed, er ma'i fab i hunan sy'n gweud hynny. Wel iti, fe gyrhaeddas i y mhedar-ar-ddeg ôd, ag yr odd hi'n bryd i fi atal yr ysgol, a un noswath ar ôl swpar, medda nhad wrtho i—ô'n i'n lot o blant cofia di. "Wel Wil bach", medda nhad, "rwy'n gweld dy fod ti obythti cwpla yn yr ysgol—beth lica ti neud wedi iti gwpla" ? O, mynd i witho i'r pwll glo nhad, meddwn i, a twmpath ishta wy yn y ngwddwg i 'run pryd. On i'n gwpod fod hi'n galad ar mam i gal dou pen llinyn at i gilydd, wyt ti'n gweld. Odd nhad ddim isha i fi fynd i'r pwll glo, ôn i'n gwpod wrth i laish a, ond odd ynta yn gwpod am strygl mam. "O, olreit", medda nhad yn dawel fach, fe wilia i gita William Tomos yr overman fory, i ofyn iddo fa ddishgwl mas am fishtir da iti".

Yr wythnos wetyn fe etho i i'r pwll glo am y tro cinta yn y mywyd. Wel iti, wedi ifi gyrradd y lle odd y fireman yn trio'r lampa, medda'r fireman wrtho i, "O, ti yw Wil bach mab Morgan, iefa" ? Ia, meddwn i. "Olreit, ishta di fanna am dicyn bach,

gan bwynto at garrag odd ar ochor y ffordd, dyw dy fishtir di ddim wedi cyrradd to". Ond ymhen dwy neu dair munad dyma ddyn cymharol ifanc, sobor yr olwg yn dod at y fireman ac yn siarad yn dawal iawn. "Good morning Meic", medda'r fireman. "Good morning, Mr. Hughes", medda'r dyn ifanc yn araf. Fe wetws Mr. Hughes y'n hanas i wrtho fa, a mod i fynd gita fa i witho. 'Come on boy bach", medda'r gŵr ifanc, "we'll go on together now". A wyddost ti Ianto, *go on together* yw hi wedi bod o'r dwrnod hwnnw hyd heddi.

O'r awr y dechreuas i witho gita fa hyd yn awr, welas i ddim ond caredigrwydd yn llifo mas o'i fywyd·a. A fe weta'i fwy wrthot ti, odd neb yn gwpod faint odd caredigrwydd Meic ond y dinon odd yn derbyn i garedigrwydd a. 'Rwy'n cofio'r pai cinta geso i. Odd a wedi bod yn holi hanas y'n teulu ni a faint o blant o ni ac yn y blân, a fe roiws goron dros ben y pai i fi—"to help your dear mother a bit", medda fa. A felna biws hi am fishodd. Ond un diwrnod iti, fe gychwynws nhad a finna, fel cannodd erill, o Jerwsalem ein cartra bach ni i lawr i Jerico'r pwll glo, a fel wyt ti'n gwpod, hen ffordd ddanjerus yw honna. Os dim isha i fi weud fod lot o ladron yn trafaelu ar hon, ond y bora yma, odd y lleidir penffordd mwya mas yn whilmentan, i weld beth alla fa ddwcid. Wel iti, ôn i a Meic wedi cyrradd y ffâs fel arfar a wedi dechra llanw glo, ond cyn bo ni wedi cwpla'r ddram ginta, dyna rywun yn gweiddi yn ôl ar yr hewl, "Meic, come here a minute" ! On i'n mynd mlân â ngwaith, a clywswn y ddou'n wilia yn dawal a'i gilydd. Yn y fan dyna Meic yn dod nôl a medda fa'n dawal, "Leave everything as it is, Billy boy, we're going out". Are you bad ? meddwn i. "No, no", medda Meic, "we are going out on special business".

Ar y ffordd, odd Meic yn ddiwedwst iawn, ond wedi cyrradd pen y pwll a cherddad dicyn o ffordd, gofynas iddo yto, beth odd yn bod. Fe droiws ata'i a dou ddeigryn mowr yn gneud llwybra ar i wynab du, a medda fa'n arswydus o deimlatw—"Something has happened to your father boy bach, lets go home to your dear old mam". Pan detho ni i olwg y'n tŷ ni fe welswn lot o fynwod yn rhitag miwn a mas. Dyna'r hen Feic yn citsho yn y'n llaw i ac yn mynd miwn i'n tŷ ni am y tro cinta ariod ac ymlan i'r gecin. Dyna fa yn cerad at mam, ac yn citsho yn i llaw hi, gan etrych arno i ac ar mam bob yn ail. Wetws a ddim, ond fe wydda mam fod na rywun yn citsho yn i llaw hi y galla hi ddipendo arno fa.

Fe alws lot i gydymdimlo â mam a ninna y dwrnod dwcws yr hen leidir nhad. Odd llawar o heni nhw a'u nisheti pocad yn i dilo, ac yn i cwnnu nhw at i lliced yn awr ac yn y man fel ta nhw'n timlo i'r byw drosta ni. Ond wyddost ti Ianto, mynd o'r tu arall hibo odd hwnna. Pan ddath Meic nôl, odd dim nishad bocad yn i law a ond fe fynnws neud trefniada'r anglodd ar unwaith. A wedi i bopath fynd hibo, ac i'r storm dawelu dicyn bach, medda mam

wrtho i un bora, "Billy, well iti fynd lawr i setlo'r bil gita'r undertaker, nai di machan i" ? Gnaf, gnaf, meddwn i, er ma gwaith dicon calad odd mynd i setlo'r bil am ddwcid nhad. Ond odd raid i neud a, a off a fi. Wedi cyrradd siop yr Undertaker, dywetas fy mod wedi dod i setlo'r bil dros mam. "O machan bach i", medda'r undertaker, "ma'r bil wedi'i setlo os dyrnota" ! Pwy setlws a ? meddwn i. "Paid ti a hito pwy yw a, ond fe weta i gymint â hyn wrthot ti, wyt ti yn i napod a'n nêt" !

Ôn—ôn i yn i napod a, yn i napod a'n dda hed.

Newyddion Da.

III.

Gan y Parch. J. Tyssul Davis, B.A.

Gŵyr pawb erbyn heddiw mai fforgeri ydyw'r adnod yn Epistol Cyntaf Ioan, v. 7. am y "tri sydd yn tystiolaethu yn y nef : y Tad, y Gair, a'r Ysbryd Glân ; a'r tri hyn un ydynt". Bwriwyd y geiriau yma allan o'r Epistol yn y Cyfieithiad Diwygiedig yn 1881, heb na esboniad na sylw, oherwydd siom a chywilydd fod y fath ffug wedi cael ei choleddi am rhyw fil a hanner o flynyddoedd. Paham y'u diswyddwyd ? Oherwydd y ffaith nad oeddynt yn yr Epistol gwreiddiol. Y mae'n hawdd gosod syniadau'r copïwr i mewn pan fyddys yn copïo llawysgrif. Mae yna fil o enghreifftiau yn y Beibl. Gwyddys fod yr adnod wedi ei gosod i mewn oherwydd ei bod yn absennol yn y llawysgrifau hynaf yn ein meddiant. Gosodwyd y geiriau yn I Ioan v. 7. ryw bryd ar ôl i'r ddogma Drindodol gael ei derbyn gan yr Eglwys Gristnogol yn Affrica. Nid oes neb wrth gwrs yn gwybod pwy oedd y troseddwr, oblegid nid yw twyllwyr yn hysbysebu eu twyll. Eithr gwyddom mai Esgob Priscillian (bu farw yn A.D. 385) a oedd y cyntaf i ddefnyddio'r adnod. Ar yr un pryd, ychwanegwyd y geiriau "ar y ddaear" yn yr wythfed adnod. Ni wyddai'r teidiau Groegaidd ddim amdani, na Tertullian, na Cyprian Sant nac Awstin Sant. Ni wyddai Jerome chwaith. Ond erbyn cyrraedd y bumed ganrif yr oedd yr adnod wedi perchenogi'r gadair o bobtu'r pentan. Er hynny bu raid iddi ddisgwyl hyd y flwyddyn 1897 cyn i awdurdodau'r Fatican ei derbyn fel rhan o gynnwys cyfiawn yr Epistol, a hynny er gwaethaf tystiolaeth ysgolheigion o bob plaid. Yn ystod y Canol Oesoedd, derbyniwyd yr adnod fel rhan briodol o'r epistol. Felly trosglwyddwyd hi o'r cyfieithiad Lladin i'r Saesneg yn 1611 ac o hwnnw i'r Gymraeg. Mor llwyddianus y gall fforgeri fod ar

glwyd groca'r ffydd. Mobiwyd y Dr. Griffiths yn y Gogledd am iddo feiddio dweud gwirioneddau fel hyn. Eithr nid dyma'r unig fforgeri—mae llawer sy'n waeth. Credai'r Dr. Martineau mai ysgrif Iddewaidd wedi ei chyfaddasu at bwrpas Cristnogol ydyw y Llyfr Datguddiad. O adael allan y rhaglith I. 1—13 ac amryw esboniadau, medrwch ddarllen dameg sy'n debyg i lyfr Daniel neu lyfr Enoc.

Nid yw'r rhaglith i efengyl Ioan yn rhan o'r efengyl. Dangosodd Schweitzer nad yw araith Paul ar yr Areopagus yn eiddo Paul o gwbl. Nid gwaith Paul chwaith yw'r bryddest ardderchog ar Gariad yn I Corinth. xiii eithr eiddo athrylith mwy nag ef, tebyg i'r Iesu. Dangosodd y Dr. Carpenter sut y gwnaethpwyd ychwanegiadau yma a thraw at un ysgrif ar ôl y llall. Mae enghraifft yn Math. v. 3, "Gwyn eu byd y tlodion". Dyna'r ffurf yn Luc vi. 20, ond y mae Mathew wedi ychwanegu "*yn yr ysbryd*". Nid yw tlodi yn yr ysbryd yn beth canmoladwy er gwaethaf Mathew, eithr rhodder inni ddewrder ysbryd, cryfder ysbryd, llawnder ysbryd a chalon siriol.

Enghraifft arall ydyw Marc ii, 25—28 a Luc vi, 3—5 a Math. xii, 3—8. Cymharwch y tri hanes ac fe gewch weld sut mae llaw ar ôl llaw wedi ychwanegu a dodi geiriau nad oeddynt yn y testun blaenorol i mewn. Yn y paragraff yn Marc ef yw'r unig un sydd wedi gwneud camsyniad yn enw Abiathar yr Archoffeiriad. Nid yn amser Abiathar ond rhyw ugain mlynedd o'i flaen ef, yn amser Abimelech, y digwyddodd yr amgylchiad. Nid ydyw o un pwys ond y mae yn ddigon i ddinistrio cred yn anffaeledigrwydd y Beibl. Dyna un esiampl o wasanaeth Undodiaith i'r byd—dangos mor ffôl yw addoli'r llythyren ac anghofio "Mae y llythyren yn lladd, ond yr ysbryd sydd yn bywhau" (II. Corinth. iii. 6). Mae pob ysgrythur wedi dod trwy ddwylo dyn a felly yn llawn gwallau dynol. Nid oes ddim yn gysegredig ond yr hyn a bortha'r enaid mewn pethau santaidd ac a gysegra ein meddwl a'n bywyd. Hyn a wnaiff Tennyson a Browning ac Emerson gystal a Phaul, ie, yn well efallai.

APEL YR YMOFYNNYDD.—Ymrestrodd nifer o danysgrifwyr newydd eisoes a dechreuwyd yr ymgyrch am fwy o ddarllenwyr i'r Cylchgrawn o ddifrif mewn rhai capeli. Ewch ati, mynnwch weled fod o leiaf *un copi* ar bob aelwyd Undodaidd trwy Gymru. Addawyd £10 gan y Gymdeithas Gyffredinol at hysbysebu os yw'r Gymdeithas Gymraeg yn barod i roi deg arall.

Cyflwyno Cyfeillion.

II. Y BEDYDDWYR.

Gan y Parch. D. Eirwyn Morgan, M.A., B.D., Bancffosfelen.

Yn gyntaf, gair personol. Pan oedd golygydd Yr Ymofynnydd a minnau'n gydfyfyrwyr yn hen Goleg Caerfyrddin bu ef yn ddigon caredig i roddi benthyg i mi swm o lenyddiaeth Undodaidd ("Hanner can pwynt dros Undodiaeth", mi dybiaf oedd teitl un o'r llyfrynnau), ond aros a wneuthum i, fel yntau, yng nghorlan y tadau. Ei ateb ef a'm hateb i hefyd yn ddiamau, pe gofynnid i ni pam nad ymadawsom â'n priod sectau, fyddai ateb Dr. Chandler pan ofynwyd iddo paham nad ymwadai â'r 'Sentars', gan fod iddynt gymaint o wendidau y gwyddai yntau'n dda amdanynt: "*My Lord, I would if I could find a worthier body of people*".

Y peth lleiaf ei bwys hwyrach a nodwn i ddechrau, sef rhifedi presennol y Bedyddwyr. Cynrychiola Cynghrair Bedyddwyr y Byd 13 miliwn o aelodau, ac yng Nghymru mae rhyw 83,000 aelod ar lyfrau rhyw 750 o eglwysi. Mwy buddiol o lawer nag ymffrostio yn ein cryfder presennol yw meddwl am orchestion ysbrydol canrifoedd ein gyrfa, a myfyrio uwchben egwyddorion gwreiddiol y mudiad Bedyddiedig. Yn fras ryfeddaf, wrth reswm, y gallwn nodi prif gamau'r hanes a'r egwyddorion a wnaeth yr hanes hwnnw yn bosibl.

Y man cymwys i ddechrau ydyw'r Diwygiad Protestant ar gyfandir Ewrop. Cyfraniadau Luther a Calvin y gŵyr y mwyafrif o bobl amdanynt, ond gwnaeth eraill, a ystyrid yn eu dydd a'u cenhedlaeth yn eithafol, waith mawr wrth geisio dwyn egwyddorion yr arweinwyr eu hunain i'w terfyn cywir, megis. Yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd Conrad Grebel, Felix Mantz, George Blaurock a Balthasar Hübmaier, yn dyfal bregethu'r dehongliad Bedyddiedig o natur eglwys a bedydd, a dioddefaint mawr ac angau creulon fu eu gwobr am hynny. Yn yr Almaen, y Swisdir a'r Iseldiroedd bu gweithgarwch Ail-fedyddwyr yr unfed ganrif ar bymtheg yn amlwg, ac ni allai Ewrop beidio â gwybod am yr ymgais ddewr newydd i geisio cael cymdeithas Gristnogol â'i sylfaen a'i phatrwm yn y Testament Newydd. Parotach yw haneswyr Lloegr heddiw nag y buont i gydnabod perthynas yr Anghydffurfwyr Seisnig â'r Ail-fedyddwyr: "Ni ellir deall 'aden chwith" y Piwritaniaid yn Lloegr heb sylweddoli iddi dynnu llawer o'i hysbrydoliaeth yn uniongyrchol oddi wrth Ail-fedyddwyr Tir Swis, yr Almaen a'r Iseldiroedd", meddai Mr. H. N. Brailsford. Trwy ymdrechion pobl ddygn fel John Smyth a Thomas Helwys daeth ychydig o bobl yn Lloegr ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg i

weld mai cymdeithas o rai'n credu yn Nuw, ac yn arwyddo'u cred ger bron y byd wrth dderbyn bedydd ydyw'r eglwys. Yn 1611-12 y ffurfiwyd yr Eglwys Fedyddiedig gyntaf yn Lloegr, sef yn Llundain, gan Helwys ac eraill o ddisgyblion Smyth. (Diddorol yw sylwi mai tywallt, nid trochiad, ydoedd yr ' arwydd ' yn yr eglwys gyntaf hon. Mynych y llithra beirniaid y Bedyddwyr wrth sôn am ' ddull a deiliaid ' ein bedydd, gan sôn am "fedydd credinwyr", a dweud mai trochiad yn y dŵr yw popeth gennym. "Eilradd yw'r dull ; bedydd yn sylfaen eglwys y rhai a adgenhedlwyd, yn ôl patrwm y Testament Newydd a'r ddelfryd Piwritan, dyna'r gwirionedd blaenaf", ebe'r diweddar Brif Athro Wheeler Robinson, wr h ymdrin â'r drefn gynnar).

Yn 1649 cawn gwmni yn ymgorffoli am y waith gyntaf yng Nghymru, yn Ilston, ac am dair canrif, bellach, cyflawnwyd gwaith cyson a diffwdan gan y Bedyddwyr yma. Bu cyfnodau o lesgedd yn hanes yr enwad, wrth gwrs, ond nid bychan fu ei gyfraniad ym mrwydr crefydd anghydffurfiol yn ein plith. Nid balchder sectol, ni a dybiwn, a ysgogai'r diweddar J. H. Rushbrooke i honni mai'r Bedyddwyr yw'r ' Protestant of Protestants '.

Nodau Arbennig yr Enwad.

A oes rhyw nodau arbennig y gallwn adnabod Bedyddwyr wrthynt, neu egwyddorion a berthyn iddynt hwy yn arbennig ? Rhannai'r diweddar Barch. B. Humphreys, Felinfoel, egwyddorion ei enwad yn ddau ddosbarth,—egwyddorion sylfaenol, ac egwyddorion gwahaniaethol. (Gallai ef nodi heb betruster yr "erthyglau mawr canolog sy'n erthyglau'n ffydd, ac yn erthyglau ffydd pob cyfundeb efengylaidd ; . . . Duw, y Drindod, Ysbrydoliaeth y Beibl, yr Ymgnawdoliad, Duwdod Crist, yr Iawn, gweinidogaeth yr Ysbryd Glân, cyfiawnhâd trwy ffydd, atgyfodiad y meirw, a sefyllfa ddyfodol o wobr a chosb". Tybed ai yr un rhestr o "erthyglau ffydd" fyddai gan lywydd yr Undeb yn 1949 ag oedd gan lywydd 1926 ?). Ei restr ef o egwyddorion gwahaniaethol, ydyw :

"(i) Testament Newydd yn unig a digonol safon ac awdurdod mewn crefydd.
(ii) Mater personol rhwng yr enaid â Duw yw crefydd.
(iii) Eglwys y Testament yn sefydliad ysbrydol".
(iv) Arwyddluniau'n unig yw yr ordinhadau".

Prin y tybiwn fod "Bannau'r Ffydd" fel y rhestrir hwynt uchod yn eiddo cwbl briod i'r Bedyddwyr, ac y mae gosodiad (iv) am yr ordinhadau'n arwyddluniau'n unig yn un na châi fendith pob math o Fedyddiwr. Eithr y mae prif ymadroddion y pedwar pwynt yn rhoi na all Bedyddiwr beidio a'u hadnabod : "Testament Newydd yn . . . safon", "mater personol . . . yw crefydd", "Eglwys y Testament Newydd". Y tri gair a rydd fwyaf o help i ddeall ein safbwynt ydyw *Testament Newydd, Person* ac *Eglwys*.

Nid yw'r apêl at ysgrythur yn beth y gallwn ymffrostio ynddi ar draul enwadau eraill, ond y mae trylwyredd yr apêl yn lled arbennig, ni a dybiwn. Yn ôl ein dealltwriaeth ni o'r Testament Newydd, pobl sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu Grist yw aelodau Eglwys Dduw, a'r porth y dônt drwyddo i'r eglwys ydyw bedydd. Ymwadwn felly â syniadau gwladwriaethol a thylwythol am natur eglwys, gan gwbl gredu mai proffes o ffydd bersonol yn unig a'n cymhwysa i fod yn wir aelodau yng Nghorff Crist. Ymhellach, yr apêl at yr Ysgrythur Lân sydd wedi'n harwain i ystyried dull y bedydd yn bwysig, ac i gredu bod y claddu yn y dwfr, a'r codi ohono drachefn yn arwydd i ni o ryfeddod marw ac atgyfodi yr Arglwydd Crist. Nid mor hawdd ydyw hi heddiw i honni cywirdeb ein "harwyddion", canys cydnabyddir yn weddol gyffredin ddilysrwydd y feirniadaeth fodern ar y Beibl (er enghraifft, dyna frawddeg fawr bedydd yn Mathew xxxiii. 19. Os dehongliad yr eglwys gynnar ydyw fel y tybir, ac nid union gomisiwn Iesu Grist, a ellir dadlau mor gadarn â chynt dros y math arbennig o fedydd a nodir yno ?). Iechyd i ni yw cael ein gwasgu i ymwrthod ag awdurdod y llythyren farw, a derbyn y Gair pan deimlwn fod cyd-dystiolaeth rhwng Ysbryd Duw â'n hysbryd ninnau. Onid gwireddu'n sicr yr ydym egwyddor wreiddiol y Diwygiad Protestant : "Testimonium Spiritus Sancti Internum" ?

Egwyddor wreiddiol Brotestannaidd yw egwyddor hawl y person i berthynas uniongyrchol â Duw hefyd. Ffydd bersonol dyn ei hun a rydd iddo hawl i ofyn am le yng nghymdeithas y saint. Tybed a ystyriwn mor werthfawr yw'r gydnabyddiaeth hon yn y gymdeithas lefiathan gyfoes sydd mor ddibris o hawl a rhyddid y person ? Sylwer mai ' person ' nid ' unigolyn ' a bwysleisiwyd uchod. Bedyddiwr gwael fyddai hwnnw a gredai mewn sant yn fwy nag yng *nghymdeithas* y saint Cwmni'r bobl a adgenhedlwyd "i obaith bywiol atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw", dyna ydyw'r eglwys a mynegodd y Bedyddwyr eu cred yn y gwirionedd hwn yn y bedydd sy'n fedydd credinwyr yn unig. O dan arweiniad yr Ysbryd Glân, yn y Gymdeithas Gristnogol, daw'r person i adnabod ewyllys Duw iddo ef a'r cwmni y perthyn iddo. Ymwadwn ag unigoliaeth hunanol a sefydliadaeth haearnaidd fel ei gilydd, ac y mae ein pwyslais ar y person rhydd yn y gymdeithas rydd. Nid yw'n syndod, felly, ein bod yn dal i gredu bod yn rhaid cenhadu a cheisio gan ddynion ym mhob man ymateb cyfrifol a rhydd i alwad yr Efengyl. Gan mlynedd a hanner i 'leni y cyfarfu Carey, Marshman a Ward yn Serampore yn India i drefnu ymgyrch genhadol bennaf y Bedyddwyr ; dri chan mlynedd yn ôl ym Mro Gŵyr dechreuodd Bedyddwyr Cymru ymffurfio'n gymdeithas. Credwn mai cychwyniadau "pethau mwy" oedd y cyfarfyddiadau tyngedfennol hyn.

A Oes Modd Inni Gydweithio?

Pa obaith sydd y down i gydweithredu ag enwadau eraill yng Nghymru? Eisoes, yr ydym yn cydlafurio â'n brodyr mewn amryw feysydd, ac y mae gwell eto'n bosibl, ond anghymwynas fawr ar ein rhan fyddai ymwadu â'n pwyslais arbennig a'r dehongliad o'r Testament Newydd a ymddiriedwyd i ni. A gaf i ddyfynnu gair gwerthfawr gan y Parch. R. S. Rogers o'i anerchiad: "Undeb Eglwysi o safle'r Bedyddwyr":

"Y mae llu o bethau sy'n gyffredin gan y Bedyddwyr a'r eglwysi eraill. Cynrychiolant yr Eglwys Gyffredinol yn ei brwydr yn erbyn y drwg, ac yn eu hymdrech i sefydlu Teyrnas Dduw. Cyhoeddant yr un Gobaith i'r edifeiriol, yr un farn ar bechod, a'r un Gwaredwr i'r holl fyd. O ran eu trefn eglwysig y maent yn Independiaid neu'n Gynulleidfaolwyr; o ran eu sêl efengylaidd y maent yn rhan o Fyddin yr Iachawdwriaeth; o ran ei dibyniad ar yr Ysbryd Glân, neu'r golau oddi mewn y maent yn Grynwyr . . . Y mae rhyw wedd ar wirionedd yn eu cysylltu ymron wrth bob cangen o'r Eglwys Gristionogol. Eithr credant fod yr Ysbryd wedi datguddio gweddau eraill ar brofiad crefyddol iddynt, y byddai'r byd yn dlotach pe ni sonient amdanynt. . . . Fe lŷn yr enwad yn ddiau wrth ei wirioneddau priod, hyd oni chaiff sicrwydd y byddant yn ddiogel yn nwylo enwadau neu eglwysi eraill". Er cysur pob enwad, gweddus yw ychwanegu gair clo yr un anerchiad:

"Ni bydd neb yn gofyn i mi, medd gŵr croenddu yn ddiweddar, pa fodd y deuthum i'r farchnad, ai dros y ffordd fawr, ai dros y ffordd waelod; gofynnant yn ddieithriad "a yw'ch gwenith chwi'n dda"?

Mynnwn weld, frodyr, fod ein gwenith enwadol yn un da". (Ni allwyd cynnwys y rhestr llyfrau ar y testun ond gellir ei chael oddi wrth y Golygydd).

Y GLOCH.

Pa waeth beth oedd i ddigwydd
Mewn hindda ac mewn glaw,
'Roedd Dan yn crïo'r newydd
A'r gloch oedd yn ei law.

"Fe fydd Eisteddfod heno,
A chyngerdd," galwai'n groch,
"Y drysau yn agored . . ."
Ac yna tinc ei gloch.

Hen ffefryn plant yr ardal
A chyfaill pawb oedd ef;
Bu colli un mor annwyl
Yn ergyd trwm i'r dref.

A chofiaf ddydd ei angladd
A'r dref yn troi tua'r Llan,
Y crïwr wedi tewi
A'r gloch yn galw Dan.

Cei Newydd. Jack H. Davies.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan y Dr. D. J. Davies, B.A.

Gair neu ddau ymhellach yma am ein horganyddion ac am faterion ynglyn â'r canu. Tua'r flwyddyn 1931 daeth i fyw i gyffiniau'r dref yma deulu o Undodiaid selog, sef Mr. a Mrs. James Thomas, eu merch Megan a'u meibion Eric a Wyn. Hana Mr. Thomas, mi gredaf, o ardal Cwmsychbant, Llanwenog, ac oni chamsyniaf yn fawr, mae yn nai i Mr. James Thomas, arweinydd y gân yng Nghapel-y-cwm. Goruchwyliwr yswiriant oedd Mr. Thomas y pryd hynny ac felly yn agored i gael ei symud o dref i dref yn achlysurol, fel yn anffodus na fu yma yn hir. Ond tra yma bu ef a'r teulu yn weithgar iawn gyda'r achos. Yng nghyfarfod blynyddol y gynulleidfa ym mis Mai 1933, dewiswyd ef yn arweinydd y gân a thra fu yma bu llewych ar y canu. A chyda llaw, ef fu yr unig arweinydd y gân swyddogol a fu gennym erioed. Yn yr un cyfarfod dewi wyd Mrs. Thomas yn is-organyddes i Miss Catherine Thomas ac, wedi ymadael o'r olaf am Burma ym mis Awst 1936, yn organyddes, a'i merch Megan yn is-organyddes yn 1937. Ni fuont yma yn hir wedi hyn a chollasom felly un o'r teuluoedd defnyddiolaf a fu yn perthyn i'r mudiad erioed. Wedi gadael o Mr. a Mrs. Thomas a'r teulu nid oedd gennym neb a allasai wneud gwaith organydd ond y diweddar Mr. A. T. Grindley, ac yr oedd ef fel arfer yn barod iawn i wneud y cwbl a allai dros yr achos a oedd mor agos at ei galon. Wedi ymsefydlu o'r Parch. John Evans, B.A. yma yn 1937 bu ei nith Miss Megan Evans yn organyddes am gyfnod a hefyd yn arwain y canu, ac ar ei hôl hi bu Miss Menna Williams, merch yr Henadur a Mrs. Meredydd Williams, Penralltnewydd y pryd hwnnw, yn canu'r organ inni am yn agos i ddwy flynedd. Wedi gadael ohoni hi syrthiodd y gwaith unwaith eto ar Mr. Grindley. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma cafodd gynorthwy achlysurol Mrs. Emlyn Jones, merch Mr. a Mrs. William Pugh, Llwyn, Ciliau Aeron, a chyn hynny o Fryngranod, Cwrtnewydd. Trwy y rhan fwyaf o 1947 a 1948 Mr. Leslie H. Thomas o Ysgol y Sir Ardwyn fu ein horganydd ac wedi ymadael ohono ef am Abertawe Mrs. Emlyn Jones sydd wrth yr organ. Cyn gorffen y paragraff yma ynglyn a'r canu dylaswn ddweud fod Miss Ray Davies, nith arall i'r Parch. John Evans, wedi bod yn help mawr inni gyda chaniadaeth y cysegr yn ystod yr amser cymharol fyr y bu yma.

Y cyfnod mwyaf llewyrchus yn hanes y mudiad Undodaidd yn Aberystwyth o'i ddechrau hyd yn awr oedd, heb os nac onibae, y cyfnod o thua 1932 hyd 1936. Tua'r amser hwn yr oedd yn y dref

yma a'r cyffiniau amryw o deuluoedd ffyddlon a gweithgar gyda'r achos a rhai myfyrwyr hefyd yn y Coleg, er nad cymaint ag a fu lawer gwaith cyn hynny. Mor addawol oedd y rhagolygon yn ystod haf 1933 fel y meddyliodd rhai ohonom mai doeth fyddai inni edrych allan am weinidog sefydlog er gwneud y gorau o sefyllfa mor ffafriol a cheisio gydag amser i sefydlu achos cryf yn y dref. Tua'r adeg yma 'roedd y diweddar Ddr. W. Tudor Jones ar ymddeol o weinidogaeth eglwys Lewin's Mead, Bryste, a meddyliwyd yn gyntaf am dano ef fel un cymhwys i fod yn weinidog inni. I'r perwyl hwn ceisiwyd ganddo ddod i bregethu yn y Capel Bach ar y Sul cyntaf o Awst 1933. Daeth a chafodd gynulliadau da, er nad cymaint o debyg ag a gafodd rai blynyddoedd cyn hynny. Ar ôl gwasanaeth yr hwyr bu yn ymgynghori â'r gynulleidfa a chyn gadael cafodd wahoddiad i ddod yn weinidog inni. Gwyddem ar y pryd, er hynny, ei fod wedi cael neu yn debyg o gael galwad i eglwys Undodaidd Torquay ac ofnem yn galed mai yno yr ai gan ei bod yn eglwys gryn dipyn yn gryfach na'n heiddo ni. Ac felly y bu—i Torquay yr aeth. Ni ddigalonnwyd ni er hynny gan y gwrthodiad, canys gwyddem am un arall a fyddai yn debyg o fod mor llwyddiannus ag yntau pe caem ef yn weinidog. Ar y pryd yr oedd yna fachgen ieuanc o Dalgarreg o'r enw John Marles Thomas a oedd newydd orffen ei gwrs ym Mhrifysgol Glasgow, wedi graddio yn M.A. a chyn hynny wedi bod trwy'r cwrs arferol o bedair blynedd yn y Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin. Gwahoddwyd ef i ddod yma i bregethu ar y Sul olaf o Awst yr un flwyddyn, ac ymhellach ar yr ail Sul o Dachwedd a'r trydydd Sul o Ragfyr. Wedi ei glywed fel hyn yn pregethu dri Sul ac yn herwydd a wyddem amdano yn barod cafodd wahoddiad unfrydol i ddod i'n bugeilio. Atebodd yntau yn gadarnhaol a dechreuodd ar ei weinidogaeth ar y Sul cyntaf o Ionor 1934.

Priodas.

Mehefin 7, yn Llwynrhydowen, Mr. DAVID BRINLEY NEWMAN, Brown Hill, Llanfihangel-ar-Arth a Miss ANNE (NANCY) WILLIAMS, merch Mr. a Mrs. David Williams, Tynant, Capel Dewi. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins, Mr. Davies, Gweinidog Llanboidy a Mr. Idwal Davies, Cofrestrydd. Pob bendith arnynt.

Marwgofion.

Mai 3, yn 90 oed, bu farw MARY HUGHES, gweddw y diweddar John Hughes, Cwmhendryd, plwyf Llanbedr, ar ôl cystudd o ychydig o ddyddiau, gan adael dwy ferch, wyrion a pherthnasau agos eraill mewn hiraeth. Cyfyng fu cylch ei bywyd—yr aelwyd a'r gymdogaeth agos ; eithr fe fu'n ffyddlon i ddyletswyddau'i chylch hyd eithaf ei gallu. Adwaenid hi gan gylch cymharol eang, a pherchid hi gan gawb a'i hadwaenai. Yr oedd o ysbryd siriol ac elfennau cymeriad dymunol eraill. Cafodd oes hir a mwynhaodd iechyd da hyd y diwedd. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capel-y-groes, a gwasanaethwyd gan y Parch. David Evans.

Mai 13, yn 39 oed, bu farw TOM JENKIN THOMAS, Velindre-isaf, plwyf Ystrad, yn ddirybudd. Aeth i'w wely, yn holliach i bob ymddangosiad ; bore trannoeth fe'i cafwyd wedi marw. Gadawodd mewn hiraeth dwys briod, pedwar o blant, tad a mam, tair chwaer, chwe brawd a chylch eang o berthnasau. Parodd ei farw dirybudd don o gydymdeimlad na all lai na bod yn gysur i'r galarwyr. Bachgen oedd a hoffid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai ar gyfrif elfennau dymunol a charedig ei gymeriad. Yr oedd yn weithiwr caled (rhy galed o bosibl i'w gyfansoddiad ddal y pwys). Bu o rodiad dichlynaidd, parod ei gymwynasau hyd eithaf ei allu. Y dydd Mercher canlynol cludwyd ei weddillion i gladdfa Capel-y-Groes a'r cynhebrwng yn anghyoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin ; yn y Capel gan y Parch. David Evans a ddug dystiolaeth uchel iddo fel bachgen o rodiad cywir. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., a gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen ac Islan Jones, M.A. Mrs. Davies, Penllain oedd wrth yr organ.

Mai 15, bu farw ELEANOR, annwyl briod Rhys Richards, Llanfair Hall, plwyf Llanwenog yn 65 oed, ar ôl cystudd caled, gan adael priod, dwy ferch, un chwaer a pherthnasau agos eraill mewn hiraeth o'i cholli. Yr oedd yn aelod yng Nghapel-y-Groes, ac er ei bod yn byw gryn bellter o'r capel, bu'n ffyddlon hyd yr analluogwyd hi gan afiechyd. Benyw ydoedd a fawr hoffid gan bawb a'i hadwaenai ar gyfrif ei hysbryd hynaws a siriol, a'i rhodiad glân. Yr oedd yn un o ddeuddeg o blant ond un chwaer a'i goroesodd. Bu'r gladdedigaeth y dydd Iau canlynol ym mynwent Capel-y-Groes a gweddiwyd gan y Parch. S. E. Bowen ; yn y capel gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, ei hen weinidog a ddug dystiolaeth uchel iddi fel benyw o rodiad cywir. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Mai 25, yn 'Yr Aelwyn,' Cefn Coed, Merthyr, MARGARET, gweddw y diweddar T. G. Thomas, Ffatri Crugyreryr, Talgarreg, a mam y Parch. J. Marles Thomas, M.A., yn 80 oed. Ffarweliodd ar ôl misoedd o gystudd caled. Gadawodd i alaru o'i cholli, fab, merch yng nghyfraith, wyres, dau frawd, neiaint a llu mawr o gyfeillion. Flynyddoedd yn ôl wedi colli ei phriod a chael ei gadael yn hollol unig derbyniodd wahoddiad ei mab a'i merch yng nghyfraith i gartrefi gyda hwy yn Cefn Coed, ac yno bu weddill ei hoes. Ymsefydlodd yn hollol gysurus ar aelwyd 'Yr Aelwyn' lle cafodd bob gofal a thynerwch a gwnaeth lu o gyfeillion newydd yn yr Hen Dŷ Cwrdd a'r ardal. Nid oedd hynny'n syndod gan ei bod o ysbryd mor hawddgar. Merch ydoedd i'r diweddar John a Sally Jones, Rhydsais, gerllaw Capel-y-Fadfa. Perthynai i deulu a fu'n amlwg a gweithgar iawn yng Nghapel-y-Fadfa yn ei flynyddoedd cynnar a bu hi'n hollol deilwng o'r traddodiad gydol ei hoes. Rhoddodd wasanaeth distaw ond gwerthfawr gyda'r canu a phopeth a oedd yn ymwneud â llwyddiant yr achos ar hyd blynyddoedd lawer. Deallwn iddi ddangos yr un ffyddlondeb yn yr Hen Dŷ Cwrdd, Cefn Coed tra daliodd ei iechyd. Y Sadwrn dilynol dygwyd ei chorff yn ôl i fynwent Capel-y-Fadfa, i ddarn o dir sydd yn ffinio bron â'i hen gartref yn Rhydsais a darn o dir a oedd yn annwyl a chysegredig iawn iddi. Daeth torf fawr ynghyd i ddangos eu parch iddi ac yn eu plith nifer dda o Gefn Coed. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. E. R. Dennis a D. Jacob Davies ac yng Nghapel-y-Fadfa gan y Parchn. E. O. Jenkins ; Lewis Williams a S. E. Bowen. Yn ei chartref ac yn ei chapel gellir dweud amdani, "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth".

Nodion yr Eglwysi.

DARLLEDU.—Derbyniodd y Golygydd wahoddiad i ddarlledu gwasanaeth crefyddol Undodaidd o Highland Place ar Hydref 9fed, 7.45—8.25 p.m., Tonfedd Cymru.

CYFLWYNO.—Gweinidog ifanc gyda'r Bedyddwyr yn Bancffosfelen ger Llanelli yw'r Parch. D. Eirwyn Morgan. Adwaenir ef trwy Gymru benbaladr fel llenor a bardd ac yn ddiweddar fel Ymgeisydd Seneddol Plaid Cymru yn etholaeth Llanelli. Ef yw Golygydd *Seren Gomer*.

CAPEL-Y-FADFA.—Yr oedd dydd Iau, Mai 19 yn ddiwrnod mawr yma a Mr. a Mrs. Evan Jones, Llawrcwrt yn dathlu eu priodas aur ar y diwrnod.

Eu dull o ddathlu oedd rhoi gwledd o de i'r gynulleidfa a phlant ysgol Talgarreg. Yr oedd y neuadd yn orlawn ac ar ôl y te godidog cafwyd gwasanaeth byr o addoliad ac yna llongyfarch y ddau ar gael mwynhau ohonynt 50 mlynedd o gyd-fyw. Siaradwyd i'r perwyl yma gan y Parch. E. O. Jenkins, T. Ll. Stephens, yr Ysgolfeistr, Miss Ellen Thomas, Greengrove a Evan Davies, Woodlands. Dros blant ysgol Talgarreg cyflwynodd Lewis Hefin Davies *biscuit barrel* yn anrheg iddynt a Mr. Stephens gopi o'r 'Perlau Moliant' ar ran yr athrawon. Cyflwynodd Miss Thomas, Greengrove awrlais hardd ar ran y gynulleidfa. Cafwyd rhaglen flasus o adrodd a chanu gan y plant. Yr oedd yn llawenydd gan bawb i gael cwmni'r ddau ar yr achlysur a datganwyd droeon y dymuniad ar iddynt gael blynyddoedd lawer eto o gydfyw cysurus.

CYMANFA GANU'R PLANT.—Cynhaliodd Cymdeithas Ysgolion Sul De-Ddwyrain Cymru ei Chymanfa Plant ar ddydd Mawrth y Llungwyn. Yr oedd capel Highland Place yn llawn brynhawn a hwyr a phlant pum ysgol yn cydganu'n hwylus o dan arweinyddiaeth y Cynghorwr Tom Morse, Highland Place: Carlyle Whitcombe o'r un capel oedd wrth yr organ. Yn yr hwyr swynwyd y gynulleidfa wrth weld y plant yn cydgodi model o gapel o gerrig fel "heddwch", a "brawdgarwch" gan adrodd a chanu wrth eu gwaith. Talwn deyrnged i'r Parch. J. Marles Thomas am ei waith fel ysgrifennydd byw i'r gymdeithas.

URDD Y GWRAGEDD, SIR ABERTEIFI.—Trefnodd y Gymdeithas bererindod i Gapel Penrhiw, Drefach nos Sul, 12 o Fehefin a daeth cynulliad lluosog ynghyd o bob rhan o'r Sir. Cynhaliwyd gwasanaeth syml yn yr hen Gapel a chymerwyd rhan gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwynrhydowen, Miss R. M. Evans, Ffynnonfair a Miss Davies, Pantmoch yn arwain y Gân. Yna cafwyd anerchiad yn yr awyr agored gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. ar hanes Capel Penrhiw. Wedi'r gwasanaeth unodd pawb wrth y byrddau i gael cwpaned o de wedi ei baratoi yn helaeth gan Mrs. Davies, Fedwen, Llandysul.

AMHERFFAITH iawn oedd gwybodaeth y ddynes Americanaidd o'i Beibl. Fe'i synnwyd yn barhaus felly pan aeth am dro i Balestina. Un hwyr wedi gorffen ei thaith am y dydd cyffesodd,—"Mae'r daith hon wedi dysgu llawer o bethau i mi. Hyd heddiw ni wyddwn mai *llefydd* oedd Dan a Beer Sheba. Credwn bob amser mai gŵr a gwraig oeddynt fel Sodom a Gomorrah!"

Adolygiadau.

DAU GYLCHGRAWN NEWYDD.

The Beacon, 9d. y chwarter. Cylchgrawn addysg grefyddol ryddfrydig yw hwn a dyry gyfarwyddyd gwerthfawr ar faterion a phroblemau'r ysgol Sul gan wŷr profiadol.

The Young Unitarian. Pris 3d. Dyma gylchgrawn misol Urdd yr Undodiaid Ifainc ac ynddo croniclir hanes gweithgarwch y mudiad ieuenctid drwy'r wlad. Gellir cael y ddau o 14, Gordon Square, London, W.C.1.

Barbara Bodichon, 1827-1891 (John Murray, 16s.) by Hester Burton.

Merch i Benjamin Leigh Smith, Undodwr blaengar ac aelod Seneddol dros Norwich oedd Barbara, testun y llyfr yma. Dysgodd i'w ferch beth oedd gwerth meddwl annibynnol a throsglwyddodd hithau'r neges yn effeithiol i'w hoes. Yr oedd yn elyn i bob anghyfiawnder ac yn arweinydd i fudiad Rhyddid a chydraddoldeb i wragedd ymhell cyn dyddiau penllanw'r *Suffragettes*. Hi a fu'n foddion i sefydlu coleg Girton i ferched a hynny mewn cyfnod pan gyfrifid gwraig yn ddim amgen na theclyn defnyddiol a bod is-raddol. Y mae ei hanes yn deyrnged i ffydd ein tadau. Cyflwynaf y llyfr yn ffyddiog i'r gŵr sy'n chwilio pregeth ; i'r aelod o Urdd y Benywod sy'n chwilio anerchiad ac i'r gwangalon sy'n chwilio ysbrydoliaeth.

Yr Ymchwil, gan Tom Nefyn-Williams, Gwasg Gee, Dinbych, 352 td. 10s.6d.

Ceir adolygiad llawn yn nes ymlaen. Y mae'r llyfr yma o ddiddordeb arbennig i'r meddyliwr blaengar a nodir ei gyhoeddi ar unwaith rhag i neb golli'r cyfle i'w brynu.

Bardd a'i Gefndir, gan y Dr. R. T. Jenkins. 53td. Adargraffiad o *Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1947. (Hugh Evans, Hackins Hey, Lerpwl).

Ceir yma draethawd manwl ar fywyd a gwaith Edward Ifan o'r Ton Coch a gweinidog Hen Dŷ Cwrdd, Trecynon 1772-96. Gwahoddir y Parch. T. O. Williams i'w adolygu.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul